

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyrol 7 Rhif 5

Yn rhad ac am ddim

Awst 2026



Tatws newydd am ddim!

Tatws Newydd am Ddim

gan Rob Evans

Dwy flynnedd yn ôl nes i benderfynnu cael drefn ar yr ardd ffrynt, roedd popeth wedi tyfu i mewn i'w gilydd a'r unig ffordd o ddatrys y broblem oedd tynnu popeth allan ac ail ddechrau. Roedd y gwrychyn yn achosi broblem achos roedd yn ymestyn tua troedfedd dros y pafn, ond gan fod hyn yn mynd i fod yn llawer o waith roedd yn hawdd iawn i'w ddechrau 'yfory'.

Ond fel oedd Nain yn dweud "haner y gwaith yw ei ddechrau". Felly nes i dynnu'r darn gyntaf allan ac wedyn roedd y gwrychyn yn edrych mor wirion fel bod rhaid i mi fynd ymlaen i orffen y gwaith. Erbyn hyn roedd yr haf drosodd ac ro'n i'n teimlo mod i'n

haeddu rhoi fy nhraed i fyni a dyna be nes i, am chwe mis!

Wrth i'r gwanwyn gyrraedd roeddwn i wedi penderfynu ar y blanhigion roeddwn i am blanu - planhigion i ddenu peillwyr ac roedd gen i'r rhestr. Dim ond clirio'r gwely ar yr ochr oedd rhaid- roedd y frawddeg hynny yn hawdd iawn i deipio ond, mewn gwirionedd gyda'r gwreiddiau cryf a'r boniau mawr roedd yn waith i ddau berson.

Yn ffodus iawn roedd y dyn drws nesaf, Huw, wedi cynnig fy helpu ac wrth ein gilydd cawson ni bopeth allan mewn bythefnos.

Roeddwn i'n barod i blanu ac erbyn diwedd yr haf roedd popeth i mewn ac wedi gwreiddio. Roedd y glaw dros y gaeaf yn help ond roedd llawer o wynt hefyd ac roedd yn drist iawn i weld yr ardd roeddwn i wedi cynllunio yn cael eu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

chwythu'n ddi-stop o bob cyfeiriad. Er hynny mae'r buddleia yn cael ymweliad gan gloynnod byw yn aml ac mae'r lafant yn tyfu'n gryf ac yn dechrau dangos blodau - mae pethau ar y ffordd.

Ond beth yw'r cysylltiad rhwng hyn â'r tatws am ddim? Byddwch yn amyneddgar am un funud mwy.

Mae dreif drws nesa yn is na fy ardd ffrynt a thra bod yr ardd newydd yn sefydlu roeddwn eisiau gwely o flodau lliwgar ar lefel y wal rhyngom ni ond i greu gwely i'r blodau hynny roedd rhaid i mi greu gwely pren ar fy ochr i o'r wal. Roedd hynny yn golygu mod i eisiau lawer o bridd ac, yn ffodus iawn roedd gen i ddigon o gompost i lenwi'r haner isaf ac wedyn byddai'n gallu topio fo efo bagiau o'r ganolfan garddio. Roedd y compost yn dda ond roedd ychydig o groen tatws yn y cymysgedd.

Roedd hynny yn golygu bod blanhigyn tatws i'w weld ymysg y lobelia eleni. Credwch fi dw i'n hapus i dynnu chwyn allan o'r gwlaau ond roedd gen i deimlad dros y blanhigyn yma - 'er gwaethau pawb a phopeth' roedd wedi bod yn ddigon cryf i goroesi popeth. Felly nes i adael iddo dyfu. Yn gyflym iawn roedd yn sefyll yn falch dros y lobelia ac roedd yn destun siarad i bawb oedd yn pasio heibio. Ond digon yw digon a bythefnos yn ôl nes i dwrio o dan y gwreiddiau a thynu 3.5 kilo o datws newydd. Ardderchog!

Byddai rhaid i rain fod ar y fwydlen am y bythefnos nesaf achos mae croen tatws newydd yn syth o'r ardd bron yn syrthio oddi arnyn nhw yn yr wythnosau cyntaf ond yn dechrau bod yn fwy styfnig ar ôl hynny. Felly beth dw i'n mynd i wneud efo'r hen datws roedd gen i yn y tŷ?

Nes i ddefnyddio yr hen datws i wneud colcannon - rysait boblogaidd o Iwerddon ac, yn fyr iawn mae fy ffrind Len yn dangos sut i'w wneud yn y colofn nesaf.

Roedd wir yn braf cael tatws o fy nghardd fy hun, dydw i ddim wedi gallu gwneud hynny am ryw ugain mlynedd. Mae yn wir i ddweud bod llysiau yn blasu'n well yn syth o'r ardd. A chredwch neu beidio dw i'n siŵr roeddwn yn gallu blasu blas lobeia arnyn nhw, blâs délicât iawn!

Bwyd Len Colcannon

Cynhwysion

Llawer o datws
Llawer o gennin
Llawer o fresych

Pliciwch y tatws a sleisiwch nhw i ddarnau resymol a choginio nhw tan yn barod. Stwnshio nhw.

Sleisiwch un neu ddau o gennin a hefyd y bresych (tua'r un faint).

Rhowch y cennin a'r bresych mewn stemar tan iddyn nhw fod yn dyner.

Cymysgwch y tatws stwnsh, cennin a'r bresych yn dda.

Allwch chi rhewi hyn wrth wneud cacenni crwn, dw i'n defnyddio cylch 75mm. Mae rhaid rhewi nhw cyn rhoi nhw mewn bag felly rhowch papur pobi ar rhywbeth fflat a gosodwch y 'cacennau' arno heb iddyn nhw dwtsio ei gilydd. Pan mae nhw wedi rhewi yn dda rhowch nhw mewn bag plastic a rhowch nhw yn ôl yn y rhewgell tan dach chi eisiau nhw. Tynnwch nhw allan o'r rhewgell tua 5 awr cyn dach chi eisiau nhw!

Mwynhewch!

Bore da!

gan Rob Evans



Ffordd syth a gwag

Yn ddiweddar clywais i fod llwybr beicio wedi agor rhwng Caerfyrddin a Llandeilo sydd yn dilyn yr hen drac reilffordd. Roedd meddwl am gael seiclo mewn ardal newydd yn apelio ata i yn enwedig un a fyddai mwy neu lai yn wastad. Nid achos dw i'n ddiog ond nad ydw i wedi seiclo lawer yn ddiweddar a byddai'n braf cael seiclo'n

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

hamddenol er mwyn cael fy hun yn fwy parod am deithiau hiraf.

Felly dydd Llun nes i roi'r beic yn y car a ffwrdd â fi. Nes i ddechrau o Gastell Dryslwyn ac anelu am Landeilo, gan fy mod i yn sir Gaerfyrddin roeddwn i'n meddwl byddai'n werth ddweud 'bore da' i bawb, wedi'r cwbl mae llawer o bobl yn siarad Cymraeg yn y sir. A dyma fi yn mynd 'bore da', 'bore da', 'bore da', a nhw yn dweud 'hi', 'hello', 'morning' - beth oedd y pwynt o'n i'n meddwl? Ond mae pwynt achos, yn ein gwlad ein hunain dylen ni ddweud 'bore da' - dyna yw iaith Cymru ynte! Ar y ffordd yn ôl nes i barhau i ddweud 'bore da' a hwythau'n parhau i ddweud 'hi', 'hello', 'morning'.

Roeddwn i hanner ffordd yn ôl i Gastell Dryslwyn pan welais babïau coch yn tyfu ar yr ochr, stopiais a thynnais y camera allan o'r bag. Roeddwn i yng nghanol roi'r camera yn ôl pan stopiodd rhywun wrth fy ochr a dweud "Shwt ych chi"? Ces i sgwrs hyfryd am ddeg munud. Roedd o wedi ymddeol ac yn byw yn Llandybie ac wedi mynd yna efo'i ferch am yr un rheswm a fi.

Roedd y daith yn hyfryd, digon o le a dim gymaint o seiclwyrr eraill. Mae'r trac yn dilyn yr



Afon lonydd, afon Tywi

hen reilffordd o Gaerfyrddin i Landeilo ond trwy ddolydd llawn blodau a gloynnod byw yn croesi o fy mlaen i yn aml. Ambell gipolwg o'r afon Tywi yn llifo'n hamddenol dros ben tuag at y môr yn Llansteffan. Wrth gyrraedd Castell Dryslwyn unwaith eto penderfynais barhau i seiclo am ryw filltir mwy ond roedd hi wir yn boeth a droais yn ôl ac anelu am adref. Roedd hi wir wedi bod yn fore hyfryd a byddai yn ôl eto cyn diwedd yr haf.

Ond roedd gwers wedi ei ddysgu – pan dach chi ar y beic dywedwch 'bore da' neu 'pnawn da' i bawb dach chi'n gweld .

Dach chi byth yn gwybod!

Y Dryw

gan Rob Evans

Dw i'n siŵr mod i wedi dweud o'r blaen fy mod i'n codi'n gynnar yn y bore, nid achos nad ydw i'n cysgu'n dda, dw i'n cael cwsg arbennig o dda, ond dydy o ddim o bwys pryd dw i'n mynd i'r gwely dw i'n deffro am 5.00. Od ynte? Wel wrth gwrs mod i'n od! Yn yr wythnosau braf dyn ni wedi cael yn ddiweddar mae wedi bod yn bleser i eistedd yn yr heulfan, weithiau efo'r drws ar agor yn llawn. Dw i'n darllen y papur ac mae'r awyr yn llawn o gân adar, maen nhw i gyd yna - gwylanod rhyfelgar yn sgrechian, piod yn herio, mwyalchen yn llwyddo i ganu ei chan hyfryd uwch ben hyn i gyd. Ac ymysg hyn oll mae'r dryw yn gwthio ei hun i mewn hefyd.



Ond roedd pethau'n wahanol ddoe, yn amlwg roedd Jeni y dryw wedi syrthio allan efo'r lleill ac roedd geiriau câs wedi cael ei ddefnyddio, gan Jeni, yn amlwg. Roedd ganddi hi rywbeth i ddweud a doedd hi ddim yn mynd i fod yn hapus tan i'r holl fyd o gwmpas gael y cyfle i wrando ar ei chwyn.

Fel arfer mae'r dryw yn canu cân felodig i ddechrau ac wedyn yn byrlymu ymlaen yn gyflym cyn mynd ymlaen am y nodyn mawr. Mae hi'n wneud gymaint o ymdrech i gyrraedd y top dach chi'n disgwyl iddi syrthio nôl ar ei chefn, ond dydy hi ddim. Dw i wedi gweld hi'n gwneud hyn wrth iddi sefyll ar weiren a dydy hi byth yn cwympo. Ond ddoe doedd hi ddim yn canu'r gân arferol, roedd hi'n mynd 'tsip tsip' dros y lle i gyd. Ond nid 'tsip tsip' ar ben ei hun ac un arall nes ymlaen oedd hi fore ddoe - roedd hi'n 'tsipio' heb stopio ac yn amlwg roedd hi'n teimlo'n gas am rywbeth. Roedd hi'n neidio ar ben y ffens yn sydyn, gwneud tua deg eiliad o gwyno wedyn diflannu i rywle arall i wneud yr un peth eto.

Aeth hyn ymlaen am tua dwy awr tan iddi orfod mynd rywle i roi ei phen i lawr yn dawel. Byswn i'n hoffi gwybod beth oedd wedi ei gwylltio. Ond y bore 'ma roedden ni'n ffrindiau eto. Yn sydyn roedd hi yna ar stepen drws yr heulfan, trodd ei phen i edrych arnaf fi, doedd hi ddim eisio esbonio beth oedd wedi achosi'r holl ddrama ddoe, mewn ychydig o eiliadau roedd hi wedi diflannu unwaith eto. Ta ta Jeni!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Arianwen Evans



Dw i newydd ddechrau dysgu Cymraeg efo fy Nhaid. Dw i wedi bod yn dysgu am tuag wythnos. Rydyn ni wedi bod yn darllen llyfr o'r enw 'Madog yn y Parti.' Rydyn ni'n darllen y llyfr yn bob dydd. Dw i'n meddwl bod y llyfr yn ddiddorol achos dw i'n dysgu geiriau newydd. Hefyd, mae'r stori'n gwneud i ni chwerthin llawer.

Ar y dechrau, darllenon ni'r llyfr yn gyflym er mwyn gweld y geiriau dyn ni'n adnabod yn barod, wedyn darllen y llyfr go iawn. Doeddwn i ddim yn deall popeth y tro yma. Pan ddarllenon ni'r llyfr yr ail waith, dw i'n cofio'r stori ac ychydig o'r geiriau. Pob tro dan ni'n darllen dw i'n deall mwy a dw i'n cofio mwy o'r geiriau. Rwy'n hoffi cael y cyfle i ymarfer Cymraeg efo fy Nhaid. Pan o'n i'n trio dysgu Cymraeg y llynedd, roedd yn anodd. Ond nawr, rydw i'n gwella bob dydd!

Dw i newydd ddechrau gwrando ar Radio Cymru, felly dw i wedi bod yn clywed mwy o ganeuon Cymraeg. Dw i wrth fy modd efo Ffatri Jam, mae eu cerddoriaeth yn dda iawn. Dw i wrth fy modd yn gwrando ar Radio Cymru achos dw i'n teimlo fel rhan o'r gymuned.

Deri Parsons

Cyfarchion o Gernyw. Fy enw i yw Deri ac rwy'n byw ger Callington yn Nyffryn Tamar, gyda fy ngwraig, Jan.

Ond yn wreiddiol roeddwn i'n byw yn Nhretomas, pentref glofaol bach yng Nghwm Rhymini ger Caerffili. Bu fy nhaid a fy nhad yn gweithio yn y pwll glô. Mae wedi cau nawr. Diolch i Arthur Scargill a Margaret Thatcher!

Dw i'n dysgu Cymraeg yn araf. Dw i'n ei mwynhau ond mae'n anodd i mi gofio. Yng Nghernyw, nid oes llawer o bobl i siarad Cymraeg â nhw, sy'n drueni mawr. Dw i'n hoffi garddio a cherdded ar Dartmoor, Bodmin Moor ac ar hyd yr arfordir.

Mae gennym ddau o blant a saith o wyrion, maen nhw'n ein cadw ni'n brysur iawn.

Taith i Lansteffan

Maria Lalic



Ffynnon Antwn Sant

Ar hyn o bryd, dw i'n ymchwilio hen ffyrdd yng Nghymru ar gyfer prosiect newydd. Yr wythnos ddiwetha', dalais i drên i Gaerfyrddin a bws i Lansteffan. Pentref pert yw Lansteffan gyda siop fach, castell ar y bryn, eglwys fendigedig a thraeth hir. Mae aber y Tywi yn llydan yma a dych chi'n gallu gweld pentref Glan-y-Fferi ar yr ochr arall. Yn y gorffennol, dw i wedi croesi'r aber ar y fferi - nid taith i bobl nerfus yw hwylio ar draws aber y Tywi!

Ro'n i wedi mynd i Lansteffan er mwyn ymweld â Ffynnon Sant Antwn. Roedd y tywydd yn braf a cherddais i ar hyd y traeth tan i mi gyrraedd llwybr ger "St Anthony's Cottage". Lan y llwybr ac ar y chwith mae gât wyrdd. 'Dych chi'n mynd drwy'r gât a lawr grisiau i sefyll o flaen yr hen ffynnon. Yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ôl traddodiad, mae'r dŵr yn lân ac yn iachaol. Daeth meudwy yma yn y 5/6ed ganrif a chymryd enw "Antwn" ar ôl Sant Antwn o'r Aifft, oedd yn byw yn y 3ydd ganrif.

Gadawais i'r ffynnon a cherdded lan y llwybr i'r castell ar y bryn ac wedyn i'r eglwys yn y pentref. Roedd hanner awr tan y bws yn ôl i Gaerfyrddin - digon o amser i brynu hufen iâ o'r siop fach.

Simon Avery

Simon Avery dw i. Hoffwn i ddweud wrthoch chi am fy mywyd oherwydd mae fy mywyd yn eithaf anarferol ar hyn o bryd. Yn 2024, dechreuais i deimlo'n sâl. Ar ôl pythefnos o salwch es i i'r ysbyty yng Nghaerdydd.

Ces i brawf gwaed a dywedodd y meddygon wrtha i nad ydy fy arennau yn gweithio. Roedd rhaid i mi ddechrau triniaeth "dialysis" yn syth bin. Treuliais i bron mis yn yr ysbyty. Ar ôl sawl prawf ychwanegol, sylweddolodd y meddygon fod yr afiechyd yn ddifrifol.

Dywedon nhw wrtha i fyddai angen cael triniaeth dialysis er mwyn cadw'n fyw. Dw i'n cael triniaeth dialysis nawr ers dwy flynedd a hanner. Ro'n i'n arfer mynd i glinig arbennig tair gwaith bob wythnos ond nawr dw i'n gwneud triniaeth dros nos yn fy nghartref.

Ar ôl adael yr ysbyty, penderfynais i ganolbwyntio ar ddysgu Cymraeg. O'n i eisiau cael prosiect - rhywbeth cynhyrchol gallwn i wneud er gwaethaf fy rhaglen driniaeth. Mae dysgu'r iaith Cymraeg wedi bod yn help enfawr i mi yn ystod y cyfnod anodd hwn o fy mywyd.

Dw i'n teimlo fy mod i wedi cyflawni rhywbeth. Efallai, yn y dyfodol, bydda i'n gallu defnyddio'r iaith i gyfathrebu gwybodaeth am afiechyd aren a "dialysis" i bobl yng Nghymru.

Simon - yn amlwg rwyf ti'n berson cadarnhaol dros ben a dw i'n siŵr byddai hynny yn help mawr i ti ddod dros hyn. Diolch yn fawr am dy gyfraniadau i'r Wennol y mis yma a rhaid i mi ddweud bod safon dy iaith yn arbennig - pob lwc! - Rob

Mis wrth Fis Nofio yn y Llyn

gan Arianwen Evans



Ddoe, nes i gerdded i lawr i'r llyn i nofio gyda fy ffrindiau. Roedd y lle yn brysur, mamau a thadau gyda phlant bach a chŵn. Roedd hi wedi bod yn ddiwrnod poeth, felly roedd y dŵr yn gynnes. Roedd y brynau gwyrdd yn edrych yn hyfryd a'r cymylau yn edrych fel defaid. Wedyn, roedd yr awyr yn llawn ac roedd hi'n edrych fel bod storm ar y ffordd. Cerddon ni adref a newidiodd y tywydd.

Dechreuodd yr haul ddisgleirio, felly aethon ni i lawr i'r dafarn. Tweedies yw enw'r dafarn. Roedd y dafarn yn brysur iawn. Eisteddon ni y tu allan wrth fwrdd yng ngardd y dafarn. Gwylion ni'r gêm bêl-droed ar ffôn Charlie. Mae Charlie yn gariad i Daisy. Pan oedden ni'n clywed pawb yn gweiddi yn y dafarn, roedd hynny'n golygu bod gôl wedi'i sgorio.

I admit that Arianwen is my granddaughter but she is not getting special treatment. She wanted to learn Welsh to give herself better job opportunities. I sent her three books, Madog yn y Parti, Gangsters yn y Glaw and Gorau Glas.

Read on page 4 what she says about the method, we don't bother about the intricacies of mutation rules - they will all fall into place in their own time. Just read the books non stop, stopping hinders your brain from doing what it can do naturally. There are two types on context in a book, in each sentence and in the complete story. So don't break the sentence and march quickly to the end of the book. Never mind that you can't understand everything - after you've read the book five times you will have grasped it. Then go on to the next book.

Do this and Welsh will become easier! - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Beth am ysgrifennu stori?

Erbyn hyn mae dros ddau gant a hanner o ddysgwyr wedi ysgrifennu stori i'r Wennol, rhai wedi ysgrifennu llawer gwaith. Bob tro maen nhw'n ysgrifennu dw i'n sylwi bod y safon yn gwella ac, yn amlwg, maen nhw'n mwynhau'r profiad.

Mae ysgrifennu yn rhoi'r amser i chi feddwl am y ffordd gorau i ddweud rhywbeth - does dim brys. Pan dach chi'n cael sgwrs mae pwysau mawr arnoch chi achos mae'n rhaid i chi ateb yn syth. Mae ysgrifennu yn eich paratoi chi at siarad efo pobl.

Allech chi ysgrifennu am unrhyw beth dach chi eisiau, eich gwyliau efallai neu rywbeth pwysig sydd wedi digwydd, llyfr dach chi wedi darllen - unrhyw beth!

Neu bwt bach amdanoch chi - eich enw, ble dach chi'n byw ac yn y blaen. Peidiwch â phoeni am gangymeriadau chwaith achos mi fydda i'n mynd trwy bopeth cyn eu cyhoeddi.

Anfonwch eich stori ataf - rob@wennol.cymru

What about writing a story?

By now about two hundred and fifty learners have written a story for The Wennol, some having written several times. Each time they write I notice that their Welsh is improving, and it's clear that they are enjoying the experience.

Writing gives you time to think about the best way to say something - there is no hurry. When you're in a conversation there is pressure on you - you have to answer straight away.

You can write about any subject you like, your holidays perhaps or something important that has happened, a book that you have read - anything!

Or a little bit about yourself - your name, where you live and so on. Don't worry about mistakes either because I go through everything before publishing.

Send your story to me - rob@wennol.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru



Canolfan yr Iaith Gymraeg

**Ysgol Glan Clwyd
Ffordd Dinbych
Llanelwy**

Mynediad am ddim

Arddangosfa'r Beibl Cymraeg

**I'w gweld o
ddydd Llun**

24 Awst i ddydd Gwener

28 Awst 10.30 yb-4yh

a nos Fercher

7 - 8yh

**Mae'r arddangosfa hon yn
adrodd sut cafodd y Beibl
Cymraeg gymaint o ddylanwad
ar iaith, diwylliant a phrofiad
crefyddol y genedl.**



**Dewch i weld
Beibl William
Morgan o 1588,
y Beibl Bach, a
llawer mwy o
argraffiadau prin.**



**Darganfyddwch sut
lwyddodd yr Ysgolion
Cylchynol i wneud
Cymru y genedl fwyaf
llythrennog yn Ewrop.**

**Rydyn ni'n chwilio
am y Beibl Cymraeg
hynaf yn Llanelwy.
Dewch â'ch Beibl
gyda chi ac mi
wnawn ni ddweud
popeth wrthyich
amdano.**



**Dysgwch sut
ddylanwadodd
stori Mary Jones
a'i hawydd am
Feibl ar Gymru, a
sut wnaeth arwain
at gyflenwi
miliynau o
Feiblau ledled
y byd.**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Alpha

gan Claire Boot



Mae Alfa yn gweithio mewn garej ym Monrovia. Y Pymptiau Pum Seren, mae e'n dweud ar yr arwydd. Petrol gorau yng Ngorllewin Affrica. Dyw Alfa ddim yn credu'r arwydd. Dim ond dau bwmp sydd yn y garej, ac mae e'n gwybod bod y bos yn gwanegu'r petrol.

Mae Alfa yn llenwi tanciau petrol. Ceir, lorïau, beiciau modur. Mae dau weithiwr pwmp - Alfa a Peter. Ond Peter yw mab y bos ac mae e'n wastad yn hepian yn swyddfa'r garej.

Mae'r diwrnod yn brysur iawn. Mae llawer o bobl eisïau petrol cyn y penwythnos. Mae hi'n boeth iawn ac yn llychlyd. Mae arogl y petrol yn gryf. Mae Alfa yn teimlo'n sâl, tipyn bach, ond does dim amser gyda fe i gael diod o ddŵr oer. Mae'r bos yn torri cyflog Alfa pan mae e'n cymryd egwyl.

Mae tacsï melyn yn stopio wrth y pwmp. Mae cerddoriaeth Afrobeats yn chwarae yn swnllyd ar radio'r car.

"Tanc llawn, yn gyflym!" mae'r gyrrwr yn dweud.

Mae gyrrwr tacsï i gyd yr un fath, mae Alfa yn meddwl. Gyrru yn gyflym, cerddoriaeth cyflym, llenwi yn gyflym.

Mae Alfa yn dadsgriwio'r cap petrol. Mae e'n edrych i mewn i'r car. Mae menyw yn eistedd yn y cefn. Mae Alfa yn dechrau llenwi'r tanc ac mae'r fenyw yn edrych arno fe.

Mae hi'n gwenu. Mae Alfa wedi synnu. Dyw pobl ddim yn cymryd sylw ohono fe, fel arfer. Mae gwên hyfryd gyda hi. Mae Alfa yn gwenu'n ôl ar y fenyw.

"Brysia!" mae'r gyrrwr yn galw.

Ond dyw Alfa ddim eisïau brysio. Mae e eisïau aros yno a llenwi'r tanc hwnnw drwy'r dydd.

Stori Fer

gan Gwyneth Lewis



Bore da pawb. Roedd y tywydd mor boeth wnaethon ni penderfynu mynd i lan y môr. Roedd hi mor boeth yng Nghaer felly bant â ni i Llandudno. Roeddwn ni wedi bod yna yn aml ond byth wedi aros yn y dre. Fedrwn ni ddim gadael y tŷ tan hanner dydd felly wnaethon ni gyrraedd yng nghanol y prynhawn ac roedd y lle yn eithaf prysur! Roedd llawer o bobl o bob oedran ac roedd hi'n hyfryd weld y plant yn chwarae yn y môr a gweld pobl yn hwylio o gwmpas y bae.

Arhoson yn Llandudno am dair noson ac roedd 'na ddigon i wneud pob dydd. Un diwrnod aethon ni i Ynys Môn i gael coffi yn Biwmares ac wedyn i Oriel Môn yn Llangefni i edrych ar y lluniau, prynu print a chael cinio. Roedd hi'n rhy boeth i fynd i'r Ardd Cuddio - falle tro nesaf?

Roedd digon o amser ar y diwrnod arall i fynd lawr i'r cloddfeidd copr - mor diddorol a chanolfan newydd efo llawer o hanes am y lle. Ac roedd hi'n fendigedig i fynd dan y ddaear - dim awyr poeth na haul! Y lle gorau yn y tywydd 'na. Roedd hi'n rhy boeth yng Ngherddi Bodnant i wneud mwy na chael brechdan ac eistedd o dan goeden enfawr. Rhywbeth arall i'r tro nesaf. Ar y ffordd yn ôl i Llandudno wnaethon ni aros ar y traeth ym Mhenmaenmawr i badlo yn y dŵr oer. Bendigedig!

Mae 'na lawer o lefydd bwyta yn Llandudno a wnaethon ni trio bwyd y môr, bwyd Canoldirol a bwyd Eidaleg hefyd - i gyd yn flasus iawn! Dim ond gwylia bach ond roedd hi'n hyfryd iawn a dw i'n edrych ymlaen at ymweld eto cyn bo hir!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Dwy Ferch Fach

gan Anne Rivett



Aberystwyth

Arogl y gwymon, sŵn y môr ar y traeth creigiog, gwylanod yn sgrechian ac yn plymio uwch ben y tai urddasol sy'n ymestyn ar hyd y bae. Dwy ferch fach yn cerdded law yn llaw ar hyd y prom gyda'u Anti Annie.

Pob tro rwy'n arogl'r gwymon wrth gyrraedd Aberystwyth mae fy ngof yn mynd yn syth yn ôl i'm plentyndod. Mae'r stori i gyd yn dechrau yn Sir Gaerfyrddin, lle fy magwraeth. Atgofion clir, fy chwaer, fy mam a minnau ar y bws o'r Tumble i Gaerfyrddin, yn llawn cyffro. Mam yn ein rhoi ni ar y trênn stêm gan ofyn i'r gard i "gadw golwg" arnon ni, merched wyth a ddeg mlwydd oed. Oes arall, y byd a fu.

Ar y trênn, arogl unigryw'r cerbyd llychlyd, rhwyd uwchben y sêd i ddal y bagiau, hen ddrych yn y canol. Sŵn yr injan yn pwffian ac yn hisian, sŵn chwibanau tlws i'n clustiau. Heibio'r coed a heibio'r caeau, chwerthin gwnaethom mewn llawenydd. Heibio gorsafoedd, rhosys cochion, chwifio'r faner gan y gard. Gorsaf ar ôl gorsaf, Bronwydd Arms, Llanpumpsaint, Cynwyl Elfed, Llanbedr, Tregaron, Strata Florida.... 'ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt'.

Dyma Anti Annie'n aros inni gyrraedd yr orsaf yn Nhrawscoed. Tina a finnau gydag un siwtces bach i aros gyda hi am bythefnos ym mis Awst 1962.

Treuliwyd amser euraidd yn ei thŷ, Broncoed, gyferbyn â'r orsaf. Atgofion melys o chwarae yn yr ardd gyda'r merched drws nesa, gwisgo lan mewn hen gotiau ffwr a hetiau enfawr i chwifio ar y teithiwr yn y trenau, casglu madarch pen bore, ymysg y glaswellt gwyrdd gwlithog. Chwarae yn yr hen gwt ieir - llawn llwch gwair a glo siâp wy, cyferbyniad trawiadol â'r hen wy porslen wedi'i

osod i annog yr ieir i ddodwy. Mae'r union wy porslen hwnnw yn fy mocs trysor o hyd.

Uchafbwynt yr ymweliad oedd mynd ar y trênn stêm i Aberystwyth am ddiwrnod, diwrnod braf i'r brenin. Aberystwyth - hufen iâ ar y pier, wedyn cerdded ling-di-long ar hyd y prom tuag at "Constitution Hill", i fynu ar y trênn i fwynhau golygfeydd godidog ar draws y bae. Ond mwy na phopeth yn llygad fy meddwl rwy'n arogl'r gwymon, clywed y gwylanod yn sgrechian uwchben ac yn gweld dwy ferch fach, law yn llaw.

Arglwyddes Augusta Waddington Hall

(1802 – 1896)



Arglwyddes Llaner

gan Jay Ramsurrun

Ym 1792 symudodd cwpl cyfoethog o Nottingham yn Lloegr gyda'u merch i Llaner, ger y Fenni, yng Ngwent. Benjamin Waddington oedd y gŵr, Georgina y wraig a Frances eu merch. Roedden nhw'n byw mewn plasty o'r enw Tŷ Uchaf.

Ganwyd eu hail ferch, Emilia, ym 1794. Rhwng 1795 a 1801 roedd ganddyn nhw drydedd ferch ond bu farw yn eu babandod. Ganwyd eu plentyn olaf, merch arall, Augusta, ar yr unfed ar hugain o Fawrth 1802.

Ni aeth Augusta i'r ysgol erioed. Cafodd ei dysgu gan ei mam yn ei gartref. Prif ffrind ei mam oedd Lady Coffin-Greenly, siaradwr Cymraeg rhugl a hi oedd noddwr y bardd enwog Iolo Morgannwg. Gan fod Augusta wedi'i magu yng Nghymru, ac yn byw gyda phobl sy'n hoffi Cymru, daeth hi â diddordeb ym mhopeth

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Cymraeg. Cafodd Augusta ei dylanwadu gan ddiwylliant a thraddodiad Cymru.

Ym 1823, yn 21 oed, priododd Augusta Hall â'r gwleidydd a'r diwygiwr amlwg Benjamin Hall. Gyda'i gilydd fe wnaethon nhw ymladd dros achosion Cymreig

Dysgodd Augusta ddim Cymraeg pan oedd yn blentyn, ond fe'i dysgodd fel oedolyn. Enillodd y brif wobwr am ei thraethawd ar warchod y Gymraeg a'r wisg draddodiadol Gymreig. Daeth Augusta yn un o'r ffigurau mwyaf dylanwadol yn adfywiad diwylliant a hunaniaeth Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ymgyrchodd dros gael y delyn driphlyg Gymreig yn offeryn cenedlaethol Cymru.

Trefnodd ddawnsfeydd gwerin draddodiadol Cymru yn ei chartref a noddodd gasglwyr caneuon gwerin amlwg Cymru. Dyluniodd yr Arglwyddes Llanofwr wisg genedlaethol eiconig Cymru. Gwnaeth forynion ei hystâd wisgo'r wisg Gymreig draddodiadol.

Adeiladodd felin wllân Gwenffrwd yn Llanofwr i gynhyrchu'r ffabrig brethyn trwm. Felly, achubodd y diwydiant gwllân Cymreig lleol. Ym 1867, cyhoeddodd lyfr coginio, yn ymgorffori ryseitiau traddodiadol Cymru. Roedd hi wedi cymryd yr enw Bee fel ei ffugenw.

Wrth iddi fyw bywyd diflino yn hyrwyddo achosion Cymreig, daeth yn adnabyddus fel Gwenynen Gwent. Rhaid i ni ddiolch i Gwenynen Gwent am helpu i ddiogelu Cymreictod ar adeg pan oedd Seisnigeiddio ar y gweill.

Mae cyfle i siarad Cymraeg yn Swydd Caergrawnt



gan Brian Flaherty

Mae nifer o bobol yn cwrdd dwywaith y mis yn llyfrgell St Ives, swydd Caergrawnt i siarad Cymraeg. Mae'r grŵp yn newydd ond mae'r nifer

yn tyfu a dyn ni'n gobeithio y bydd y grŵp yn gwneud pethau eraill yn y dyfodol.

Hanes y Grŵp

Cafodd Bore Coffi St Ives ei ddechrau gan Anne ym mis Tachwedd 2025 mewn caffi bach yn St Ives. Roedd hi eisiau ffeindio pobol o Gymru yn swydd Caergrawnt. Roedd y cyfarfod yn boblogaidd o'r dechrau, gydag Anne, Liz, Eirwen a Myfanwy, yr aelodau gwreiddiol, yn darparu llyfrau Cymraeg am ddiwylliant a phopeth Cymraeg. Ar ôl i'r caffi bach gau, daeth Liz o hyd i ystafell yn Llyfrgell St Ives.

Dyn ni'n cwrdd dwywaith y mis. Dyn ni'n yfed te a choffi ac weithiau dyn ni'n lwcus a rhywun yn pobi cacen. Mae Anne yn gobeithio bydd y grŵp yn gwneud gweithgareddau eraill. Cafodd cyngerdd plygain (y cyntaf yn ein hardal ni) ei drefnu gan Eirwen a Myfanwy ym mis Ionawr. Roedd y capel ym Melbourn yn llawn pobol o Gymru a phobl leol.

Y Grŵp

Mae aelodau ein grŵp yn gymysgedd o ddysgwyr o bob lefel, pobol sy'n siarad yn rhugl a phobol sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith. Mae rhai pobol yn teithio o March a Bedford yn ogystal â Suffolk i siarad yng Nghymraeg gyda'r grŵp. Does dim pwysau ar neb yn y grŵp ac mae pobl sy'n siarad yn rhugl yn helpu'r dysgwyr.

Dyn ni'n siarad am lawer o bynciau, er enghraifft mae un o'r dysgwyr yn gwirfoddoli gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Ffen Wicken. Dyn ni'n trafod sut maen nhw'n defnyddio ceffylau ar y Ffen i gadw'r amgylchedd mewn cyflwr da, ond roedd y rhaglen yn rhy lwyddiannus, mae'r ceffylau yn ychydig o broblem nawr! Pynciau eraill yw bywyd tramor, pobl sy'n ddwyieithog a'r manteision, Nant Gwrtheyrn, Garth Newydd, planhigion a'u henwau Cymraeg. Mae'r pynciau yn amrywio.

Mae'r grŵp yn tyfu o nerth i nerth gyda dau aelod newydd sy'n dod o Sir Benfro yn wreiddiol ac maen nhw'n helpu pobl eraill yn y grŵp i ddatblygu.

Dw i'n hapus i wneud camgymeriadau oherwydd dyn ni'n dysgu trwy drafodaeth.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Pam yw'r grŵp Bore Coffi, St Ives, yn bwysig i fi?

Dw' i wedi cyrraedd diwedd lefel Uwch 3 ac roedden ni'n mynd i symud i Orllewin Cymru ond yn anffodus wnaeth pethau ddim gweithio mas. Beth wna i nesaf? Dw i ddim yn siŵr os yw'r cyrsiau nesaf yn siwtio fi. Pa gyfleoedd eraill sy gyda fi i ddatblygu fy sgiliau yn yr iaith? Efallai bod yr ateb o flaen fy llygaid - y grŵp! Mae'r cwrs nesa yn cynnwys mwy o ramadeg. Dw i ddim yn dda gyda gramadeg. Yn y dosbarth pan mae'r tiwtor yn dweud 'dyn ni'n mynd i edrych ar y ffurf gryno', bydda i'n teimlo'r panig yn codi ond unwaith byddwn ni'n dechrau bydda i'n iawn. Dw i'n gwybod mod i'n dysgu mewn ffordd wahanol. Dw i'n credu, roedd y profiadau drwg mewn gwersi Saesneg yn yr Ysgol Uwchradd ar fai.

Bydda i'n dal i fynd i'r lefel nesaf ond dw i eisiau defnyddio'r iaith i wella fy sgiliau sgwrsio yn Gymraeg. Y peth mawr yw'r cyfle i gael sgwrsio yn Gymraeg, a galla'i wneud hyn, diolch i Fore Coffi St Ives.

Dyma pam mae'r grŵp Bore Coffi yn bwysig i fi.

Diolch i Anne am ddechrau'r grŵp; hefyd i Liz, Eirwen a Myfanwy am gadw'r grŵp i fynd cyn i fi ymuno. A diolch i'r bobol gyfeillgar yn y grŵp pob tro dyn ni'n cwrdd.

Ymuno neu ymweld â'n grŵp

Os dych chi eisiau ymuno â ni mewn amgylchedd cyfeillgar, edrychwch ar Fenter Iaith Lloegr ar Facebook neu dilynwch y ddolen ar waelod y tudalen i paned.cymru (Map of Welsh meetups) i ffeindio manylion am y grŵp.

https://www.google.com/maps/d/u/0/viewer?hl=en&ll=52.31526752508885%2C0.29846301084062166&z=10&fbclid=IwAR330uhoIf3TzoZPOK3TRFtOlkrS7DIJHKIPkH3eOG4Y1PgIbLPjGgCCDjc&mid=12gf3J_4ozjROzhzuUbv_xip5VOFZNyc

Os dach chi'n cael y cyfle ymunwch â grŵp yn eich ardal. Dyma sut i ddatblygu eich Cymraeg mewn ffordd naturiol. Mae hefyd yn helpu chi wneud synnwyr o reolau gramadeg.

Does dim rhaid i chi fod yn ddysgwr am byth!

Trip Haf Ann Mutton



Es i ar drip Haf gyda Grŵp De Cymru o HPS (Hardy Plant Society) i swydd Dorset wythnos diwethaf. Roedd dros dri deg ohonon ni ar y daith i Dorchester ble arhoson ni mewn gwesty cyfforddus

Mae dwy fenyw, Catherine a Jane, wedi trefnu popeth a thaith lwyddiannus iawn oedd hi, hyd yn oed i drefnu tywydd braf i ni. Cawson ni cyfle i gerdded o gwmpas dwy ardd bob dydd - gerddi arbennig a diddorol yn ogystal â gwahanol iawn.

Prynhawn dydd Iau ymwelon ni â The Old Rectory, Little Cheney, ble roedd coedydd gyda nentydd bychain yn disgyn i lawr drwy'r coetir. Roedd y perchennog yn rhedeg busnes blodau wedi'u torri ac felly roedd llawer o rosod o bob lliw: melyn, pinc, gwyn, hufen, rhai gyda'r arogl harddaf.



Fore Gwener ymwelon ni â 'Sculpture by the Lakes' ble cawson ni cyfle i grwydro ar hyd llwybrau wrth ymyl llynnoedd a darganfod gwahanol gerfluniau. Roedd cerfluniau o bobol ac anifeiliaid, er enghraifft, ond hefyd cerfluniau gwahanol fel "wind chimes". Es i hefyd i arddangosfa cerflun ble roeddwn ni'n gallu eu prynu nhw am £5,000 am anifail bach, roedd pris cerflun arall dros £300,000! Doeddwn i ddim wedi prynu dim byd.

Prynhawn dydd Sadwrn, aethon ni i Heale House gyda gerddi hyfryd. Mae nant fach yn rhedeg ar waelod yr ardd ac mewn lle bach yno gweles i siff-saff am y tro cyntaf. Tipyn bach wedyn pan eisteddon ni'n wrth y bwrdd yn yfed cwpan o de ger y nant, gweles i deulu hwyaid, mam gyda thri chyw ar lan yr afon ymhlith y brwyn. Pan ddaeth gwalch yn yr awyr las diflannon nhw du fewn i'r brwyn.

Ar ôl cinio nos Sadwrn, daeth perchennog meithrinfa blanhigion i siarad â'n grŵp ni. Doth e gyda flodeuglymau o rosod lliwgar rhai ag arogl hyfryd, blodeuglymau o farf yr hen ŵr, (mae'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

gair Saesneg clematis yn llawer iawn gwell). Pan aethon ni adref prynhawn dydd Sul, roedd cyfle i ni ymweld â meithrinfa blanhigion. Roedd cyfle i bawb gerdded o gwmpas yr ardd, ac felly cyfle i ni weld rhosynnau yn tyfu, barf yr hen ŵr yn cyrchio drwy'r coed a llawer iawn o blanhigion eraill ac wrth gwrs cyfle i feddwl dros gwpanaid o de am beth i'w brynu.



Wedyn mynd adref.

Yr Hen Harbwrfeistr

gan Simon Avery

Rhai nosweithiau, pan dw i'n teimlo'n aflonydd, dw i'n ffeindio fy hun yn sefyll yn hen swyddfa'r harbwrfeistr. Dw i'n ffeindio fy hun jyst yn sefyll yno yn y tywyllwch. Yn raddol, mae siapiau yn dechrau dod i'm golwg, desg, cadair, silffoedd o lyfrau. Ar ôl ychydig funudau dw i'n gallu gweld y mapiau ar y wal a'r telesgôp yn hongian wrth y ffenestr. Mae'r 'stafell yn arogl fel hen bapur. Mae lleithder yn yr awyr. Cafodd y swyddfa ei gau blyneddod yn ôl. Mae'r drws ar glo. Does neb yn gwybod ble mae'r agoriad.



Dw i'n cripio ar draws y 'stafell. Dydy'r llawr ddim yn cwyno dan fy nhraed. Mae'r ddesg wedi cael ei gorchuddio gyda phapurau. Mae rhai ohonyn nhw wedi syrthio ar y carped. Does neb yn gofalu am y swyddfa nawr. Does neb yn cofio.

Dw i'n eistedd yn y gadair ac yn agor yr ail ddrôr. Dw i'n gwybod sut i ffeindio'r canhwylau. Does dim digon o olau leuad heno, felly dw i'n cynnu'r gannwyll gyda matsien o fy mhoced. Nawr dw i'n gallu gweld. Mae sawl gwrthrych ymysg y papurau ar y ddesg: baromedr toredig, hen bibell, gwydryn. Dw i'n gwybod beth dw i'n mynd i wneud nesaf. Dw i'n gwybod yn barod.

Dw i wedi gwneud yr un peth ers talwm. Bob tro dw i'n eistedd yn yr un gadair a chynnau'r un gannwyll. Mae'r patrwm yn ailadrodd. Nesaf, bydda i'n tynnu allan cyfrol benodol o'r pentyrrau o lyfrau a phapurau ar y ddesg – yr un gyfrol bob tro – yr un gyfrol dw i wedi dewis bob

nos am oesoedd. Mae clawr y llyfr yn fratiog, gyda staeniau brown a du. Er gwaethaf y staeniau, dw i'n dal i allu darllen y teitl: "Straeon o'r Môr"

Nawr dw i'n agor y gyfrol. Mae'r tudalennau yn denau a meddal. Mae'r ysgrifen wedi dechrau diflannu ond dw i'n dal i allu darllen y geiriau. Dyma'r geiriau unwaith 'to. Mae'r gyfrol yn lawn o straeon. Cafodd y geiriau eu sgwennu gan yr hen harbwrfeistr. Roedd e'n arfer siarad â phob morwr, pob teithiwr a chyrhaeddodd yr harbwr. Clywodd straeon o fwystfilod o'r dyfnder, ynysoedd rhyfedd, a goleuadau o dan y dŵr gyda'r nos. Ysgrifennodd bob un ohonyn nhw yn y gyfrol hon. Mae'r tudalennau yn lawn o leisiau'r môr.

Ar ôl darllen am sbel, dw i'n penderfynu mynd at y ffenestr. Dw i'n dal i deimlo'n aflonydd. Mae'r llonyddwch yn dechrau teimlo'n drwm. Mae'r canrifoedd yn pwysu arna'i fel petai dw i'n sefyll o dan y môr.

Nawr dw i'n edrych allan o'r ffenestr - trwy'r gwydr budr. Mae swyddfa'r hen harbwrfeistr ar lawr uchaf yr adeilad a dw i'n gallu edrych allan dros y stryd islaw. Mae popeth yn dawel nawr. Tawel a thywyll. Mae'r Angor Du wedi cael ei gorchuddio gan gysgodion. Does neb yn canu yno heno. Dw i'n gallu clywed nhw weithiau - canu a chwerthin a gweiddi - eu lleisiau'n atseinio ar hyd y stryd a phellach, allan dros y môr du.

Mae awel yn dod o'r môr heno - dw i'n gallu gweld yr arwydd yn hongian y tu allan i'r dafarn yn siglo. Tu hwnt i'r stryd a'r dafarn, dw i'n gweld yr harbwr - yr hen, hen harbwr. Faint o gychod sydd wedi cyrraedd yr hen harbwr hwn? Faint o forwyr sydd wedi goroesi'r tonnau du a'r gwyntoedd milain cyn adrodd eu chwedlau i'r hen harbwrfeistr?

Heno, mae'r cychod yn yr harbwr yn siglo gyda'r awel. Mae cath yn ffroeni'r potiau cimychiaid. Dw i'n mwynhau sefyll yma wrth y ffenestr, edrych allan dros yr harbwr. Dw i'n hoffi trio cofio popeth.

Ond mae cof arall yn dod ata i nawr. Dw i ddim yn hoffi'r cof hwn. Dw i'n cofio un noson, blyneddod yn ôl, o'n i'n sefyll yma wrth y ffenestr yn edrych allan dros y stryd fel dw i'n hoffi gwneud pan dw i'n teimlo'n aflonydd.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Gwelais yr Angor Du, gwelais y hen harbwr, gwelais y lleuad dros y môr. Wedyn, daeth menyw ifanc i lawr y stryd. Roedd hi'n cerdded yn gyflym, ar ei phen ei hun, trio cyrraedd adre cyn y glaw, efallai, gyda'i gwallt aur yn chwythu yn yr awel.

Pan roedd hi gyferbyn adeilad yr hen harbwrfeistr, stopiodd yn sydyn. Trodd hi ei phen yn araf bach ac edrych i fyny at y ffenestr - edrychodd yn syth arna i! Dechreuais godi llaw ond wedyn dechreuodd sgrechian - sgrechian gyda'i dwylo dros ei hwyneb - sgrechian a sgrechian yn y stryd, edrych i fyny arna i a jyst sgrechian. Sefais yno. Do'n i ddim yn gwybod beth ddylwn i wneud. Felly, sefais yno du ôl y gwydr budr. Rhedodd hi i ffwrdd.

Pam roedd hi'n sgrechian?

Pam?

Does neb ar y stryd heno. Does neb yn gallu gweld fi'n sefyll wrth y ffenestr. Dw i'n dychwelyd i'r ddesg unwaith 'to. Dw i'n dychwelyd at y gyfrol.

Dw i'n gwybod beth fydd yn digwydd nesaf. Dw i wedi gwneud yr un peth ers talwm.

Agora' i'r gyfrol eto. Ffeindia i'r chwedl olaf. Gwela i'r teitl ac wedyn dw i'n cofio'r holl stori. Cofia i bopeth unwaith eto. Enw'r stori olaf ydy: "Yr Hen Harbwr Feistr." Mae'n dechrau gydag y geiriau isod:

"Rhai nosweithiau, pan dw i'n teimlo'n aflonydd, dw i'n ffeindio fy hun yn sefyll o fewn swyddfa'r hen harbwrfeistr...."

... bob nos dw i'n gwneud yr un peth.

Bob nos dw i'n dod i'r hen swyddfa a darllen yr un gyfrol.

Pam roedd hi'n sgrechian?

Pam?



What about writing your story for the Wennol? It doesn't need to be long because learners at all stages want to read the Wennol.

Who knows, perhaps you would enjoy the experience!

Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown



Rhan 9

Dyma oed y tro cyntaf iddo fe. Roedd wedi cario ei gyfarpar argyfwng ers blynyddoedd ond hwn fyddai'r tro cyntaf iddo orfod ei ddefnyddio. Ond doedd e ddim yn edrych ymlaen at y noson. Byddai'n hir ac anghysurus gyda dim byd i helpu fe pasio'r amser.

Ei dasg gyntaf oedd trefnu popeth yn ei babell. Gwnaeth e ddarganfod mai'r trefniad gorau oedd eistedd ar ei fat a phwyso erbyn ei sach. Wedyn, edrychodd ar ei ddogyn argyfwng. Roedd cnau, ffrwythau sych, siocled a mintys. Nid oedd yn wledd ond yn ddigon i gadw ei lefelau egni i fyny dros nos. Ac, wedi'r cyfan, roedd wrth ei fodd â siocled! Roedd rhywbeth i gadw ei ysbryd i fyny o leiaf.

Penderfynodd fwyta rhai mintys a gadael ei 'bryd min nos' tan yn ddiweddarach. A hefyd diffodd ei dorch i gadw'r batri.

Roedd yn benderfynol o aros yn bositif a chadw ei ysbryd i fyny. Ond yn y tywyllwch, dechreuodd ei feddyliau grwydro. Meddyliodd am ei blentyndod a'i rieni. Roedd wedi tyfu i fyny i fod mor wahanol iddyn nhw. Roedd eu bywyd wedi bod yn syml iawn. Dim ond gweithio a chartref ac un ŵyl am bythefnos bob blwyddyn. Roedden nhw wedi bod yn garedig iawn iddo fe a'i chwaer ond doedd dim antur o gwbl. Ac roedd yn teimlo'n falch wrth iddo edrych yn ôl dros ei fywyd. Prifysgol, swydd broffesiynol, gyrfa lwyddiannus, teulu ond heb golli'r wefr o fyw ei fywyd yn llawn. Ond ffynnodd ar her antur, ac i ffwrdd aeth e a'i feddyliau, ail gofio'r gogoniannau blaenorol.

Rhan 10

Deffrodd ac am funud ni allai ddeall ble roedd e. Ond, ar y poen yn ei wddf oedd yn rhaid iddo ganolbwyntio yn gyntaf. Eisteddodd i fyny ac

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

ymestyn ei gefn, gan droi ei ben o ochr i ochr. Yna, wrth i'r boen leddfu, dechreuodd cofio. Roedd e'n eistedd mewn pabell fach ar lethr mynydd yn y 'Cairngorms', ar goll ac yn aros am doriad y wawr pan oedd yn gobeithio y gallai weithio allan ble roedd e.

Eisteddodd yn dawel tra'n adlewyrchu ar ddigwyddiadau'r diwrnod. Roedd e mewn llanast. Doedd e ddim yn deall beth oedd wedi digwydd iddo fe, oherwydd ei fod wedi paratoi yn dda. Fodd bynnag, roedd e'n iawn a gyda thipyn o lwc, byddai popeth eraill yn iawn yn y bore pan fyddai'r niwl yn clirio.

Roedd e'n teimlo'n stiff ar ôl eistedd mewn pabell fach a meddyliodd e ei bod hi'n amser camu tu fas ac ymestyn ei gyhyrau. Roedd e'n synnu, roedd y niwl wedi clirio! Gallai weld y sêr! Roedd rhyddhad ar unwaith wrth i'w ysbryd godi.

Edrychodd o gwmpas. Roedd yn bosibl gweld y bryn roedd e newydd ddisgyn i lawr ond heb leuad roedd yn anodd gweld llawer. Serch hynny, byddai hyn yn gyfle iddo fe ddechrau ei encil? Siŵr o fod, ond ble'n union roedd e? Roedd angen rhywbeth pendant i adeiladu arno.

'Seren y gogledd wrth gwrs, llefodd allan!' Byddai modd iddo fe gyfeirio'r map a gwirio'r cwmpawd.

Byd Natur – mis Awst 2026

gan Patrick Soper

Teulu mintys yw'r planhigyn blodeuol y chweched fwyaf yn y byd, gyda channoedd o aelodau. Mintys poethion yw'r fwyaf toreithiog o'r rhain; ar y llaw arall, mintys ysbigog yw'r amrywiad rydyn ni'n ei dyfu yn ein gerddi, mewn cornel rhywle, yn groesryw o fintys poethion a mintys y dŵr.

Mae mintys ysbigog yn frodorol i ardaloedd Ewrop ac Asia, ond mae ef wedi ymgartrefu mewn sawl ardal o'r byd, yn lledaenu drwy risomau. Dyma blanhigyn sydd wedi cael ei amaethu am



Mintys Ysbigog

ganrifoedd at ddibenion coginiol a'i sawr unigryw. Cafodd mintys ysbigog ei nodi gan Pliny y naturiaethwr yn y 1af canrif OC a, mwy na thebyg, daethpwyd â mintys i Brydain gan y Rhufeiniaid; erbyn y 14eg canrif roedd mintys yn cael ei ddefnyddio i roi ar bast dannedd achos ei blas dymunol.

*

Os ydych chi'n gweld ffwng ysgwydd hufenlliw mawr gyda chennau brown sydd yn tyfu ar goed collddail aeddfed, gallai fod yn gyfrwy cennog. Mae ffwng parasitig hwn yn gyffredin hyd a lled yr ynysoedd hyn, yn enwedig ar goed llwyfen, ffawydden, onnen neu fasarnen, gan gynnwys coed wedi'u marw neu ar fin farw.



Cyfrwy Cennog

Dyma blanhigyn sydd yn boblogaidd gyda fforwyr oherwydd ei arogl sydd yn debyg i giwcymbr ac o bridd cynnes; gall gael ei ychwanegu at amrywiaeth o botes.

Yn ymddangos yn y gwanwyn cynnar, mae cyfrwy cennog yn tyfu yn gyflym tan ddiwedd yr haf. Gyda dyfodiad hydref bydd y ffwng hwn yn syrthio i'r llawr ac yn dechrau pydru. Yn ôl pob tebyg bydd ffwng newydd yn tyfu yn yr un lle'r flwyddyn ganlynol.

Yn ôl yr Institute for Welsh Affairs mae'r arfordir Cymru yn ymestyn am 1,680 milltir ac mae 60% ohonon ni'n ddigon lwcus i fyw o fewn cyrraedd hwylus ohoni.

Felly heb os mae llawer ohonom ni wedi dod



Serenllys y Morfa

ar draws serenllys y morfa - blanhigyn gwyllt brodorol yw hyn gyda blodyn sydd yn debyg i lygad y dydd, oni bai am y petalau sydd yn gallu bod yn las neu borffor golau yn lle'n wyn. Mae'r blodau yn ymddangos ym mis Gorffennaf a gallan nhw barhau tan yr hydref, wrth gynnig tarddle gwerthfawr o neithdar i wenyn ac i ryw amrywiadau o lojnnod byw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Fel mae eu henw yn ei awgrymu, gellir dod o hyd i serenllys y morfa ym morfeydd heli ac aberoedd, ac yn aml ar ben clogwyni hefyd. Bwytdwy yw eu dail tewion, naill ai wedi'u coginio'n ysgafn neu fel rhan o salad, wedi'u casglu o fis Ebrill tan yr hydref. Mae gan y dail blas hallt a thipyn yn chwerw.

Yn tyfu hyd at dair troedfedd o daldra, mae serenllys y morfa yn ddigon gwydn i oroesi ar hyd yr arfordir gwyllt a ddigysgod Cymru.

Y Wennol o flaen pawb!

Dros y bythefnos ddiwethaf dw i wedi sylweddoli sut mae'r Wennol wedi dylanwadu ar y cyfryngau a'r Gwasanaeth Cyfiawnder yn y wlad yma. Yn gyntaf, ar ôl i gyfraniad Patrick Soper (Ydych chi'n Cofio - Ruth Ellis) oedd yn sôn am y person olaf i gael ei chrogi ym Mhrydain dyn ni'n clywed bod Ruth Ellis wedi cael pardwn. Roedd erthygl Patrick yn rhifyn Gorffennaf 2026.

Wedyn nes i droi'r teledu ymlaen ychydig o ddyddiau yn ôl er mwyn gwyllo 'Cynefin' a dyna nhw yn sôn am y diwydiant llefrith yn Llundain (erthygl Martin Jones yn rhifyn mis Mai 2026) a hefyd pwnc ei ddarlith yng nghyfarfod Cymdeithas Cymraeg Llandeilo Ferwallt.

Hefyd roedden nhw'n sôn am gyfraniad Hugh Middleton i safon iechyd pobl Llundain wrth greu afon lân newydd i'r ddinas, hyn i gyd yn erthygl Martin Jones ym mis Rhagfyr 2025. Mae'n braf iawn i sylweddoli bod darllenwyr Y Wennol yn gallu cael y neges yn gyflymach nag oddiwrth y cyfryngau mawr.

Mae'n edrych fel bod Y Wennol a'i gyfranwyr ardderchog yn cael y sylw maen nhw'n haeddu. Da iawn Martin a Patrick!

Helpwch fi i lenwi'r Wennol

Mae'r Wennol yn rhoi cyfle gwyh i chi ddarllen straeon yng Nghymraeg ac mae hynny'n beth da,

OND

Mae hefyd yn rhoi cyfle i chi ysgrifennu ac mae hynny yn helpu chi ddysgu yn gyflymach. Beth amdani?

Yr Iaith Gernyweg

gan Lillian Harrison



Dwi wedi byw yma yn Looe, yn ne-ddwyrain Cernyw am un mlynedd ar ddeg. Mae'n lle hyfryd! Ond, dwi erioed wedi clywed neb yn siarad Cernyweg yn y stryd na'r dafarn! Ond, mae 'na ychydig o gantorion gwerin o Gernyw sy'n canu yn y Gernyweg. Fel Gwenno, Will Keating a grwp o'r enw "Changing Rooms".

Dyma'r rhesymau dydych chi ddim yn clywed yr iaith ar y stryd:.....

(1) Ystadegau

Blwyddyn	Ardal lle siaradwyd Cernyweg (km ²)	Cyfanswm Poblogaeth Cernyw	Nifer o siaradwyr Cernyweg
1100		21,000	20,000
1200	3,270	35,000	30,000
1300	2780	52,000	38,000
1400	2360	55,000	34,000
1500	1890	69,000	33,000
1600	1400	84,000	22,000
1700	500	106,000	5,000
1750	160	140,000	Ychydig iawn
1800	0	192,000	0

Ym mlynnyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif, roedd dyn o'r enw Henri Jenner, wedi'i gydnabod adfywiad yr iaith Gernyweg. Roedd e'n fardd Orsedd Cymru a Gorsedd Llydaw hefyd. Fe gyhoeddodd e lyfr "Handbook of the Cornish Language" yn 1904. Fe ddefnyddiodd Cernyweg Canol o'r pedwerydd ganrif ar ddeg a'r pymthegfed ganrif. Ond, defnyddiodd e hefyd, eiriau Cymraeg a Llydaweg i ehangu'r geirfa!

Ond doedd yr adfywiad ddim yn digwydd, mewn gwirionedd!

Ystyriodd addroddiad yn 2018 bod y nifer o bobl yng Nghernyw sy'n siarad Cernyweg yn rhugl, oedd tua phum cant.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ym mis Chwefror 2026, roedd adroddiad y BBC yn dweud bod rhwng 2,500 a 5000 o bobl yn y sir gyda dealltwriaeth sylfaenol – mas o boblogaeth gyfanswm o 590,000. Mae hynny'n llai nag un y cant!

(2) Mae dysgu Gernyweg yn anodd ac yn ddrud.

Mae'r Cyngor Cernyw yn cynnal cyrsiau iaith Gernyweg mewn dim ond dau le – Liskeard a Bude. Mae'r cyrsiau mewn dosbarth, un bore yn ystod yr wythnos. Mae'n costio cant a thrigain punt y dymor (am 18 awr o wersi). Felly os ydych yn gwneud y tri thymor i gyd, mae'n costio bron bum cant o bunnoedd!

Cyn i chi allu ymuno â grwp dosbarth, hefyd, maen rhaid i chi gael gyfweiliad i wirio eich bod yn addas ar gyfer y cwrs!

Ond nawr, diolch byth, mae "Say Something In" wedi paratoi gwersi "ar lein" yn yr iaith Gernyweg ac maent yn rhad ac am ddim. Byddaf yn eu gwneud yn yr Hydref!

Newyddion Diweddar

Mae'r iaith wedi cael ei chydabod yn Ran III o Siarter Ewropeaidd Ieithoedd Llefrifol. Fe fydd hynny'n bwysig – ei fod yn cael yr un lefel o amddiffyniad a Chymraeg. Gobeithio fe fydd mwy o arwyddion dwyieithog o gwmpas y sir, a fe fydd plant yn yr ysgol yn dysgu tipyn bach o'r iaith hefyd.



Diolch Lillian, mae'n newyddion da bod yr iaith Gernyweg yn cael sylw o'r diwedd. Dyn ni'n edrych ymlaen at fwy o newyddion - Rob

Ydych Chi'n Cofio?

mis Awst 1963

gan Patrick Soper

Ar ddydd Iau 8fed mis Awst 1963 at 3yb arhoswyd y trên Post Brenhinol o Glasgow i Lundain gan arwydd coch ffug mewn lleoliad gwledig ac unig ychydig o filltiroedd i'r de o Leighton Buzzard.

Ymhen eiliadau roedd sawl dyn yn y cab, wedi'u harfogi gyda phastynau pren neu fetel; a ni fyddai'r gyrrwr, 58 oedran, yn gwella'n llawn erioed ar ôl anafau'r pen a ddioddefodd.

Gwyddai aelodau'r criw yr oedd y trên hwn yn cludo sachau o arian - sypynnau o bapurau £1 a £5 yn ogystal â phapurau deg swllt. Gwnaethon



nhw symud y trên yn araf tipyn bach ymlaen, cyn belled â phont a oedd yn croesi lôn dawel y cefn gwlad, lle'r oedd lori yn aros amdanyn nhw. O fewn 30 munud roedd y giwed wedi cymryd 120 sach, wrth adael yn ôl dim ond 8 sach pan roedd amser iddyn nhw fynd.

Digynsail oedd graddfa'r lladrad, gyda chyfanswm £2.61 miliwn - tua £71 miliwn heddiw. Does neb yn gwybod faint o ddynion oedd yn y giwed, ond rhywbeth rhwng 15 a 18. Daethon nhw â'r sachau i fferm a oedd y dynion wedi ei phrynu rhyw 25 milltir i ffwrdd.

Roedd ymateb yr heddlu yn chwim, yn chwilio manau anghysbell o fewn cylch o 30 milltir. Ac, er bod y criw wedi symud yr arian o'r ffermdy yn frysiog, roedden nhw wedi anghofio'r gêm Monopoly roedden nhw wedi chwarae. Arno oedd eu holion bysedd. Felly oherwydd bod gan bob aelod o'r criw cofnod troseddol eisoes, roedd yn hawdd i'w cysylltu â'r lladrad.



Cafwyd yr arweinwyr yn euog a dedfryd o 30 blynedd yn y carchar ond, hyd yn oed ar y pryd,

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

teimlodd lawer o bobl mai gorfodol oedd hyn. Cafodd y dedfrydau eu diwygio yn ddiweddarach, a ni charcharwyd neb am fwy na 13 blynedd.

Rhywsut, llwyddodd Ronnie Biggs, Bruce Reynolds a Charlie Wilson i ddianc, ar wahanol



amserau, o'u carcharau priodol, ac roedden nhw ar ffo am flynyddoedd. Ond gan nad oedd eu rhan o'r arian ddim mwy na £150,000 pob un (tipyn bach mwy na £4 miliwn heddiw), ac mae'n

ddrud i fod yn ffoadur rhyngwladol. Gyda'i iechyd yn wael ac yn byw mewn tlodi, daeth Ronnie Biggs yn ôl i'r DU ym mis Mai 2001. Ar y dechrau, cafodd ei anfon yn syth i'r carchar ond yn fuan fe'i rhyddhawyd ar seiliau tosturiol. Bu ef farw yn 2013.

Does neb yn gwybod ble aeth y rhan fwyaf o'r papurau banc - darganfodd yr heddlu dim ond rhyw 10% ohoni. Credir bod rhan fwyaf o'r arian yn ddiwerth erbyn hyn ers i'n arian cael ei ddiweddarau yn 1971.

Ydych chi'n cofio?

Cerddoriaeth Gymraeg

Gan Anthony Morgan



Carwyn Ellis

Pob mis dw i'n dewis dau neu dri artist i drafod ac, i wneud y dasg yn haws, dw i'n dewis thema sy'n cysylltu nhw. Alla i ddim esgus bod thema go iawn fis yma, heblaw mae'r artistiaid yma yn perfformio yn Eisteddfod y Garreg Las eleni a ro'n i'n ffansio gwranddo arnyn nhw.

Gadewch i ni ddechrau gyda Carwyn Ellis a Rio 18, sy'n cymysgu synau Lladinaidd o Brasil â'r iaith Gymraeg i greu sŵn unigryw a hynod o

esmwyth a hafaidd. Mae gyrfa Carwyn Ellis yn dyddio nôl i'r nawdegau ac mae e wedi gweithio gyda sawl artist dros y blynyddoedd. Ers 2019 mae e wedi bod yn perfformio gyda Rio 18 ac yn canu yn Bortiwgaleg, Sbaeneg, Saesneg yn ogystal â Chymraeg.

Mae Tywydd Hufen Iâ o'u halbwm cyntaf, Joia! yn gân berffaith yr haf, fel awgrymwyd gan y teitl, ac mae'r un peth gyda'u caneuon eraill. Dw i enwedig yn hoffi Tonnau a Tonnau o'u halbwm diweddaraf, Haf, sy'n codi argraff o wyllo machlud yr haul ar draeth Copacabana, ar ôl diwrnod gwresog. Dw i ddim yn nabod unrhyw artistiaid eraill sy'n cymysgu cerddoriaeth samba gyda'r iaith Gymraeg fel hyn ac, i fi, dyma'r ffordd berffaith i ddathlu nosweithiau cynnes yr haf.

Y band nesa yw Melit, band o Aberystwyth yn wreiddiol ond wedi lleoli yng Nghaerdydd erbyn hyn. Gwrandais ar eu hail albwm Dim Dwywaith, enwebwyd am restr fer y Wobr Gerddoriaeth Gymraeg ac Albwm Gymraeg y Flwyddyn 2023. Maen nhw'n disgrifio eu sŵn fel "slacyr roc a phost pync" a sôn am fandiau fel The Clash, fel eu dylanwadau. Yn bersonol maen nhw'n atgoffa fi o fand enwog Cymraeg, Anhrefn.

Mae'r albwm yn fyr iawn, felly anwybyddais i'r teitl a gwranddo dwywaith. Mae'n deg i ddweud fy mod i wedi'i hoffi fe. Roedd e'n fwy curiad i fyny nag o'n i'n disgwyl, gydag alawon melys a riffiau gitâr fachog wedi canu yn egniol ac angerddol. Fel arfer, dw i'n dewis fy hoff ganeuon o'r albwm ond roedd yn amhosib i fi ddewis y tro 'ma. Bydd rhaid i fi wrando ar y holl albwm pob tro am wn i. Am drueni.

Yn olaf yw Ani Glas, cantores Gymreig a Chernyweg o Gaerdydd. Mae Ani yn dod o deulu talentog - mae ei thad yn fardd a'i chwaer yn gantores enwog hefyd, sef Gwenno. Cafodd Ani ei hordeinio yn Gorsedd Kernow (Gorsedd Cernyw) yn 2013 gyda'i henw barddol, Mirores (Gwyliwr yn Gymraeg) sy hefyd enw ei halbwm unawd cyntaf.

Enillodd Mirores y wobwr Albwm Gymraeg y Flwyddyn yn 2020. Mae'r albwm yn freuddwydiol a swynol gyda geiriau yn Gymraeg, Cernyweg a Saesneg. Er hynny, mae rhai caneuon gwleidyddol hefyd, fel Peirianwaith Perffaith sy'n cynnwys recordiadau o'r canlyniad

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

refferendwm 1997. Does dim trafferth dewis fy hoff gân y tro 'ma - mae'r albwm hyn yn anhygoel o dda ond mae'r trac teitl yn uchafbwynt sy'n dangos talent Ani Glas a'i steil cerddoriaeth yn berffaith.

Dyma fi am y tro, felly mwynhewch eich cerddoriaeth a'r Eisteddfod.

Taith beicio Velomaritime Mikeal ac Yvonne Conq



Dydd Iau, Mehefin 26: Rennes (16 km)

Mae'n rhaid i ni ymweld â Rennes, prifddinas Llydaw, bob tro! Rydym yn dechrau gyda'r Rue de St Malo, poblogaidd gyda'i thai hanner pren, yna'r Couvent des Jacobins. Rydym yn archwilio tarddiad Condate, dinas hynafol Rennes 2,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r lleiandy, (Couvent des Jacobins) a sefydlwyd gan John IV, Dug Llydaw ym 1364, wedi dod yn ganolfan gonfensiwn yr 21ain ganrif.

Rydym yn crwydro trwy'r hen dref, gan gynnwys y Place des Lices, lle mae marchnad wedi cael ei gynnal bob bore Sadwrn ers 400 mlynedd. Rydym yn ymweld â Pharc Tabor, gem wedi'i thirlunio o dros 10 hectar gyda gardd rosod - dros 2,000 o fathau! Fel ni, mae llawer o grwpiau o blant ac oedolion yn setlo i lawr ar y lawntiau neu'r meinciau am bicnic.



Rydym yn cyrraedd o flaen Senedd Llydaw, un o adeiladau arwyddluniol Rennes. Yn flaenorol llys cyfiawnder sofran y ddugiaeth, fe losgodd i lawr ym 1994 yn dilyn gwrthdystiad gan

bysgotwyr blin. Heddiw, mae'n gartref i bencadlys Llys Apêl Llydaw.

Ymhellach ymlaen, dyma olion Gatiaw Mordelaise, dau dŵr gyda phontydd codi dwbl, sydd yn ffurfio'r fynedfa i'r ddinas gaerog. Mae Eglwys Gadeiriol San Pedr, gyda'i dau dŵr 50 metr o uchder, yn heneb unigryw ac yn un o naw eglwys gadeiriol hanesyddol Llydaw. Yng nghanol y ddinas, dysgon ni am y prosiect mawr i ail-dyfu llystyfiant caeau'r Vilaine a dod â'r afon yn ôl i'r golwg. Rennes yw'r bumed ddinas werdd fwyaf a'r ail ddinas fwyaf cyfeillgar i feiciau yn Ffrainc! Yn Amgueddfa Llydaw, mae gennym ni ddiddordeb arbennig yn esblygiad Llydaw fodern o'r Chwyldro i'r oes gyfoes.

Mae amser ein taith yn ôl yn agosáu: yng ngorsaf Rennes, rydym yn dadosod ein dau feic ac yn eu rhoi yn ein bagiau "bagiau arbennig" safonol.

Gwaetha'r modd, fel ar y daith allan, mae gyrrwr Flixbus yn gwrthod gadael i ni fynd ar y bws i ddechrau. Fodd bynnag, diolch i'n dadl ystyfnig a pharhaus, mae o'r diwedd yn caniatáu i ni deithio gyda'n holl fagiau wedi'u cofrestru. Mae'r daith yn dod i ben yng ngorsaf Brest tua 9 p.m. Mae gennym un her olaf: ail-ymgynnull ein dau feic ar gyfer y "dychweliad adref"...



Beiciau wedi ei dadosod

Velomaritime 2025: Epilog

Ar ddydd Mawrth yma, Awst 5, 2025, ar ôl trefnu'r lluniau ar gyfer ein cyflwyniad PowerPoint ac ysgrifennu'r adroddiad uchod, gallwn asesu ein hantur!

Gwnaethom seiclo cyfanswm o 920 km gyda 4,912m o gynnydd mewn uchder, yn 70 blwydd oed, mewn tua thair wythnos. Rydym yn falch o'r her athletaidd a gyflawnwyd ar ein beic confensiynol, heb gymorth, tra bod Yvonne ond yn defnyddio'r e-feic trydan bob dydd am weddill y flwyddyn. Credwn fod beicio rheolaidd yn fuddiol i'r corff a'r meddwl: mae 30 munud o feicio'r dydd yn lleihau'r risg o salwch 30%. Mae

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

synnwyr o ymarfer corff a hiwmor da yn mynd law yn llaw.

Yn ffodus, nid ydym wedi cael unrhyw ddamweiniau, anafiadau na phroblemau mecanyddol, ac eithrio am ychydig o dyllau ar feic Yvonne, y dylwn fod wedi'u gosod â theiars Schwalbe. Rydym hefyd yn credu bod ein beicio dyddiol yn helpu i leihau ein hól troed carbon, sy'n bwysig ar gyfer gwarchod ein hamgylchedd a'r blaned.

Ym mis Mehefin, mae'r tywydd yn eithaf mwyn, felly rydyn ni'n beicio (10 km/awr ar gyfartaledd)! Ac nid ydym yn dioddef straen modurwyr, gan wybod bod 40% o'u teithiau dyddiol yn llai na 3 km! Mae hyd yn oed yn ddiogel dweud, yn y ddinas, ar feic, y gallwn ni oddiweddyd ceir yn hawdd i ddod o hyd i le parcio. Rydyn ni wrth ein boddau yn byw'r antur i'r eithaf, gan seiclo ar gyfartaledd o 40 km/dydd, gan ddarganfod panoramâu amrywiol.

Er ein bod ni wedi cynllunio ein camau dyddiol, roedden ni'n gwerthfawrogi'r newid golygfeydd, y cyfarfyddiadau ar hyd y ffordd, a'r nosweithiau a dreuliwyd gyda phobl leol. Roedden ni'n gwerthfawrogi eu croeso, ein cyfnewidiadau, eu meddwl agored, a charedigrwydd y bobl leol, a oedd yno i'n cynghori os oedd angen.

Fe wnaethon ni gyfoethogi ein gwybodaeth am dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol y rhanbarthau y teithiasom drwyddynt ac rydym yn gobeithio cynllunio prosiectau eraill yn y dyfodol! Rydym yn hapus i rannu ein profiad ar gyfer achos dyngarol y Telethon blynyddol: helpu i iachâu llawer o afiechydon. DIOLCH am eich cefnogaeth!



O'r dechrau i'r diwedd

Geirfa

Tatws newydd

Gwrychyn - hedge
Denu peillwyr - to attract pollinators
Boniau - (tree) trunks
Gwreiddio - to root
Gloynnod byw- butterflies
Lafant - lavender
Rhyngom ni - between us
Cymysgedd - mixture
Sefyll yn falch - standing proud
Testun siarad - talking point
Twrio o dan - exploring underneath
Styfnig - stubborn

Bwyd Len

Plicio - to peel
Stwnshio - to mash
Papur pobi - baking paper

Bore da!

Diog - lazy
Pabi - poppy
Dol(ydd) - meadow(s)

Y Dryw

Heulfan - conservatory
Gwylanod rhyfelgar - warring seagulls
Piod yn herio - challenging magpies
Mwyalchen - blackbird
Dryw - wren
Cwyn - complaint
Byrlymu - to rush

Deri Parsons

Pentref glofaol - coal mining village
Trueni - pity

Taith i Lansteffan

Ymchwilio - to research
Llydan - wide
Meudwy - hermit
Iachaol - healing
Yr Aifft - Egypt

Simon Avery

Prawf gwaed - blood test
Arennau - kidneys
Yn syth bin - straight away
Difrifol - serious
Canolbwyntio - to concentrate
Cynhyrchiol - productive
Er gwaethaf - in spite of
Cyfathrebu - to communicate
Cadarnhaol - positive

Mis wrth fis

Disgleirio - to shine

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Alpha

Gwanegu - to weaken
Llychlyd - dusty
Cymryd egwyl - taking a break
Dadsgriwio - to unscrew

Stori Fer

Caer - Chester
Hwyllo - sailing
Cloddfeydd copr - copper mines

Dwy Ferch Fach

Gwymon - seaweed
Plymio - to dive
Urddasol - respectful
Magwraeth - upbringing
Y byd a fu - the world that was
Rhwyd - net
Drych - mirror
Llwch yr amser gynt - yesterday's dust
Madarch - mushrooms
Gwlithog - dew covered
Cwt ieir - hen house

Arglwyddes Lanofer

Cyfoethog - rich
Plasty - manor
Noddwr - financial supporter
Dylanwad - influence
Diwylliant - culture
Traddodiad - tradition
Gwleidydd - politician
Diwygiwr - reformer
Traethawd - essay
Gwisg traddodiadol - traditional dress
Brethyn trwm - heavy material
Ymgorffori - to incorporate
Ffugenw - nickname
Hyrwyddo - to promote

Swydd Caergrawnt

Gwreiddiol - original
Darparu - to provide
Diwylliant - culture
Gweithgareddau - activities
Cymysgedd - mixture
Tramor - overseas
Manteision - advantages
Datblygu to develop

Trip Haf

Cerflun - statue
Siff-saff - chiff-chaff
Hwyaid - ducks
Brwyn - rushes
Gwalch - sparrow hawk
Blodeuglymau - bouquet

Yr Harbwrfeistr

Aflonydd - restless

Arogli - to smell (something)

Lleithder - dampness
Cripio - to creep
Gorchuddio - to cover
Canwyll - candle
Gwrthrych - an object
Toredig - broken
Cynnau - to light (a fire)
Ailadrodd - to repeat
Clawr - cover
Bratiog - tattered
Bwystfil - monster
Dyfinder - the deep
Cysgodion - shadows
Atseinio - to echo
Goroesi - to survive
Milain - cruel
Chwedl - a story
Cimwch - lobster

Argyfwng

Cyfarpar argyfwng - emergency equipment
Gwefr - thrill
Ffynnu - to thrive
Gogoniad - glorification
Ymestyn - to stretch
Lleddfu - to soothe
Cyhyrau - muscles
Adlewyrchu - to reflect
Seren y gogledd - north star
Llefu - to shout

Byd Natur

Mintys poethion - peppermint
Toreithiog - prolific
Mintys ysbigog - spearmint
Amrywiad - variety
Lledaenu - to spread
Coed colldail - deciduous trees
Cyfryw cennog - dryad's saddle
Llwyfen - elm
Ffawyddden - beech
Onnen - ash
Masarnen - sycamore
Fforwr - forager
Serenllys y morfa - sea aster
Llygad y dydd - daisy
Bwytdwy - edible

Y Wennol o flaen pawb

Cyfryngau - the media
Diwydiant llefrith - milk industry
Cyfraniad - contribution

Yr Iaith Gernyweg

Cantorion gwerin - folk singers
Ystadegau - statistics
Dealltwriaeth sylfaenol - basic understanding
Cyfweliad - interview

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Ydych chi'n cofio?

Anafu - to injure

Arfogi - to arm

Sypyn - pack

Ciwed - gang

Digynsail - unprecedented

Chwim - swift

Brysiog - busily

Dedfryd - sentence

Gorfodol - compulsory

Mewn tlodi - in poverty

Diwygio - to amend

Seiliau tosturiol - compassionate grounds

Cerddoriaeth Gymraeg

Esmwyth - smooth

Enwebu - to nominate

Bachog - catchy

Angerddol - passionate

Swynol - bewitching

Gwleidyddol - political

Taith Beicio

Lleiandy - nunnery, convent

Tirlunio - to landscape

Arwyddluniol - emblematic

Gwrthdystiad - protest

Esblygiad - evolution

Dadosod - to take apart

Dadl ystyfnig - stubborn argument

Cofrestru - to register

Buddiol - beneficial

Mwyn - tender

Goddiweddyd - to overtake

Cyfarfyddiad - meeting

Cyfoethogi - to enrich